# Cytundeb Grant

Dyddiad: 17 Tachwedd 2014

Rhwng

Yr Ysgrifennydd Gwladol, y Weinyddiaeth Cyfiawnder

a

Chymorth i Ddioddefwyr

i ddiben gweithredu'r
Gwasanaeth Lladdiadau
cenedlaethol

## Cynnwys

1. Diffiniadau
2. Tymor
3. Cynnig Grant
4. Talu'r Grant
5. Rheoli
6. Anghydfodau
7. Terfynu
8. Effeithiau Terfynu
9. Gweithgarwch Gwaharddedig
1 0. Yswiriant
11. Indemniad
12. Deddf Diogelu Data 1998
13. Cyfrinachedd
14. Tryloywder a Gwybodaeth
15. Mynediad at Ddata
16. Rhyddid Gwybodaeth
17. Hawliau Eiddo Deallusol
18. Personél
19. Cynllun Ymadael
20. Amrywiol

## Atodlen

1. Y Ddogfen Ddisgrifiadol
2. Cyllid Grant
3. Gwybodaeth Fonitro Ychwanegol i'w chyflwyno i'r Awdurdod
4. Newidiadau ac Ychwanegiadau at Rwymedigaethau'r Grant (gan gynnwys bid y Derbynnydd)
5. Cynllun Ymadael

Llofnodwyr

Gwneir y Cytundeb Grant hwn ar 17 Tachwedd 2014

Rhwng

(1) Yr Ysgrifennydd Gwladol, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder (yr Awdurdod);

a

(2) Cymorth i Ddioddefwyr [cofrestrwyd yn Lloegr o dan Rif Elusen: 298028 a Rhif Cwmni: 2158780], sydd â'i swyddfa gofrestredig yn Hallam House, Hallam Street Llundain, W1 W 6JL (y Derbynnydd),

pob un yn barti a chyda'i gilydd y partïon

## 1. Diffiniadau

Yn y Cytundeb Grant hwn mae:

**Awdurdod** yn golygu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder;

**Diwrnod Busnes** yn golygu diwrnod (heblaw Sadwrn neu Sul) pan fydd banciau yn agored ar gyfer busnes domestig yn Ninas Llundain;

**Dyddiad Cychwyn** yn golygu dyddiad cychwyn cyflawni Rhwymedigaethau'r Grant. Y dyddiad hwn fydd [1 Hydref 2014] oni bai bod yr Awdurdod yn nodi'n wahanol;

**Deddfwriaeth Gydraddoldeb** yn golygu Deddf Cydraddoldeb 201 0;

**Arfer Da'r Diwydiant** yn golygu lefel y sgiliau, gofal, pwyll a rhagwelediad ac ymarfer gweithredu y gellid yn rhesymol ac fel arfer ei disgwyl o bryd i'w gilydd gan weithredwr hyfedr a phrofiadol sy'n ymwneud yn yr un math neu fath tebyg o ymgymeriad â'r Derbynnydd;

**Grant** yn golygu'r grant sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Derbynnydd o dan delerau'r Cytundeb Grant hwn;

**Cyllid Grant** yn golygu'r strwythur talu ar gyfer y Grant a amlinellwyd yn Atodlen 2;

**Rhwymedigaethau'r Grant** yn golygu rhwymedigaethau'r Derbynnydd a amlinellwyd yn y Cytundeb Grant hwn. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion yr Awdurdod ar y Derbynnydd a amlinellwyd yn:

Cymalau 1 - 20.13

Atodlen 1 – Y Ddogfen Ddisgrifiadol

Atodlen 2 - Cyllid Grant

Atodlen 3 – Gwybodaeth Fonitro Ychwanegol i'w chyflwyno i'r Awdurdod

Atodlen 4 – Newidiadau ac Ychwanegiadau at Rwymedigaethau'r Grant (gan gynnwys cynigion y Derbynnydd a amlinellwyd yng nghais y Derbynnydd ac mewn gohebiaeth â'r Awdurdod wedi hynny, a gofynion a amlinellwyd gan yr Awdurdod mewn gohebiaeth ag ymgeiswyr)

Atodlen 5 – Cynllun Ymadael

**Cyfnod y Grant** yn golygu'r cyfnod o'r Dyddiad Cychwyn tan:

(a) y dyddiad terfynu a amlinellwyd yng Nghymal 2 (Tymor); neu

(b) yn dilyn estyniad yn unol â Chymal 2 (Tymor) y dyddiad pan ddaw'r cyfnod estynedig i ben;

neu ddyddiad terfynu cynharach neu derfynu'r Grant yn rhannol yn unol â'r Gyfraith neu ddarpariaethau'r Cytundeb Grant;

**Hawliau Eiddo Deallusol** yn golygu patentau, dyfeisiau, nodau masnach, nodau gwasanaeth, logos, hawliau dylunio (boed gofrestradwy neu fel arall), ceisiadau am unrhyw rai o'r uchod, hawlfraint, hawliau cronfeydd data, enwau parth, enwau masnachu neu fusnes, hawliau moesol a hawliau neu rwymedigaethau eraill tebyg boed yn gofrestradwy neu beidio mewn unrhyw wlad (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i'r Deyrnas Unedig) a'r hawl i siwio am beri coel;

**Colledion** yn golygu pob niwed, colled, rhwymedigaeth, cost, treuliau (gan gynnwys costau a threuliau cyfreithiol a phroffesiynol eraill), a thaliadau boed hwy'n codi o dan statud, contract neu gyfraith gyffredin neu mewn cysylltiad â dyfarniadau, achosion, costau mewnol neu hawliadau;

**Personél** yn golygu cyflogeion, asiantau, ymgynghorwyr, partneriaid, isgontractwyr a phartneriaid consortiwm o'r naill Barti lle bônt yn gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau o dan y Cytundeb Grant hwn;

**Derbynnydd** yn golygu'r unigolyn, y ffyrm, sefydliad neu gwmni y mae'r Awdurdod yn llunio Cytundeb Grant ag ef ac sy'n cynnwys Personél y Derbynnydd.

## 2. Tymor

Daw'r Cytundeb Grant hwn i rym ar ddyddiad y Cytundeb Grant hwn tan 31 Mawrth 2017 oni bai y bydd yn cael ei derfynu yn unol â Chymal 7.

Bydd gan yr Awdurdod yr opsiwn i ymestyn tymor y Cytundeb Grant hwn y tu hwnt i 31 Mawrth 2017 am hyd at bedwar mis ar hugain (24) arall. Gellir gweithredu'r opsiwn hwn ar yr amod bod yr Awdurdod yn rhoi rhybudd i'r Derbynnydd o'i fwriad i ymestyn tymor y Cytundeb Grant yn ddim hwyrach na chwe (6) mis cyn y byddai'r cyfnod cychwynnol neu gyfnod estynedig yn dod i ben.

Bydd telerau ac amodau'r Cytundeb Grant hwn yn weithredol yn achos unrhyw estyniad i'r Cytundeb Grant oni bai bod y partïon wedi cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

## 3. Cynnig Grant

Ar yr amod bod y Derbynnydd yn cydymffurfio â'r telerau ac amodau a amlinellwyd yn y Cytundeb Grant hwn, bydd yr Awdurdod yn talu'r Grant i'r Derbynnydd yn gyfnewid am gyflawni Rhwymedigaethau'r Grant.

Mae'r Derbynnydd yn cydnabod bod yr Awdurdod yn cytuno i'w ariannu am y swm, am y Cyfnod Cyllido ac am y Diben hynny'n unig a bennwyd yn y Cytundeb Grant hwn.

Ni chaniateir i'r Derbynnydd godi, pennu ffioedd na mynnu taliad gan [rai mewn profedigaeth o ganlyniad i Laddiad] am unrhyw gyngor, arweiniad neu weithgarwch cysylltiedig a ddarperir mewn cysylltiad â'r Cytundeb Grant hwn.

## 4. Talu'r Grant

### 4.1 Y Strwythur Taliadau

Bydd yr Awdurdod yn talu'r Cyllid Grant i'r Derbynnydd fel yr amlinellwyd yn Atodlen 2, yn amodol ar delerau ac amodau'r Cytundeb Grant.

### 4.2 Cyfrifyddu a TAW

Os bydd unrhyw Gyllid Grant a roddir gan yr Awdurdod i gaffael nwyddau a gwasanaethau a bod TAW wedi'i gynnwys yn y gost, bydd y Derbynnydd yn adennill y TAW hwnnw oddi wrth Gyllid a Thollau EM os oes modd ei adennill ac yn ei ddefnyddio i gyflenwi'r gwasanaethau sy'n ofynnol o dan y Cytundeb Grant hwn.

Y Cyllid Grant yw'r cyfanswm sy'n daladwy gan yr Awdurdod ac mae'n cynnwys yr holl Dreth ar Werth sy'n daladwy o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994.

Bydd y Derbynnydd yn rhoi cyfrif am y Grant ar sail croniadau. Mae hyn yn golygu y bydd cost nwyddau neu wasanaethau'n cael ei gydnabod pan geir y nwyddau neu'r gwasanaethau yn hytrach na phan delir amdanynt.

### 4.3 Gweinyddu Ariannol

Bydd y gweithdrefnau canlynol yn weithredol:

(i) bydd pob cyfeiriad at "y flwyddyn ariannol", oni bai y nodwyd fel arall, yn cyfeirio at flwyddyn ariannol yr Awdurdod, sy'n ymestyn o 1 Ebrill tan 31 Mawrth;

(ii) bydd gan y Derbynnydd gyfrif banc y bydd y cyllid Grant yn cael ei dalu iddo a bydd yn rhoi manylion y cyfrif banc i'r Awdurdod ar unwaith ar ôl dyddiad y Cytundeb Grant hwn;

(iii) bydd y Derbynnydd yn cyflwyno cyfrifon blynyddol llofnodedig i'r Awdurdod sy'n tystio bod yr holl symiau a dalwyd o dan y Cynllun Grant hwn wedi cael eu defnyddio i reoli Rhwymedigaethau'r Grant, o fewn naw (9) mis ar ôl diwedd blwyddyn ariannol y Derbynnydd;

(iv) bydd cyfrifon y Derbynnydd yn cael eu cadw mewn fformat eglur, gyda'r Cyllid Grant yn cael ei ddangos fel cronfeydd cyfyngedig a bydd gwerth a diben y cyllid hwn yn cael ei ddangos ar wahân yng nghyfrifon llofnodedig y Derbynnydd (neu yn nodiadau'r cyfrifon hynny) ac yn Adroddiad Blynyddol y Derbynnydd;

(v) bydd y Derbynnydd yn darparu ffurflenni monitro ac adroddiadau ychwanegol fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ddisgrifiadol yn Atodlen 1 ac yn Atodlen 3 y Cytundeb Grant hwn;

(vi) pe bai gwybodaeth fonitro a gyflwynir yn hwyr neu'n anghywir, ni fydd yr Awdurdod yn atebol am dalu unrhyw hawliadau am daliadau sy'n ddyledus nes bydd yr wybodaeth wedi'i chyflwyno ac wedi'i chymeradwyo gan yr Awdurdod; a

(vii) bydd y Derbynnydd yn hysbysu'r Awdurdod cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl os yw'n rhagweld na fydd yr holl gyllid grant sy'n daladwy am y flwyddyn ariannol honno'n cael ei wario. Ni ellir cario drosodd unrhyw gyllid grant sydd heb ei wario mewn blwyddyn ariannol ymlaen i'r flwyddyn ariannol ddilynol heb gydsyniad penodol yr Awdurdod.

Os oes gan y Derbynnydd unrhyw reswm dros amau unrhyw anghysonder ariannol neu unrhyw anghysonder arall yn y ffordd mae unrhyw Grant a dalwyd o dan y Cytundeb Grant hwn yn cael ei ddefnyddio, rhaid iddo hysbysu'r Awdurdod ar unwaith, gan egluro pa gamau sy'n cael eu cymryd i ymchwilio i'r amheuaeth, ac i hysbysu'r Awdurdod am y cynnydd a wneir yn yr ymchwiliad hwnnw.

### 4.4 Gwerth am Arian

Bydd y Derbynnydd yn chwilio am y ffordd fwyaf effeithlon o gyflawni Rhwymedigaethau'r Grant, gan gynnwys defnyddio gwirfoddolwyr a mentoriaid a defnyddio gwasanaethau prif ffrwd i gyflenwi unrhyw wasanaethau a ddarperir ganddo fel rhan o Rwymedigaethau'r Grant.

### 4.5 Blaendalu ac Adennill Symiau Dyledus

Bydd unrhyw symiau a flaendelir o dan y Cytundeb Grant hwn yn parhau'n eiddo i'r Awdurdod nes byddant wedi'u gwario ar y dibenion y'u bwriadwyd. Ni fydd y Derbynnydd yn elwa nac yn cynhyrchu gwarged yn sgil y Cyllid Grant a amlinellwyd yn y Cytundeb Grant. Rhaid i'r holl arian gael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl i ddiben cyflawni Rhwymedigaethau'r Grant a rhaid dychwelyd unrhyw Gyllid Grant nad yw wedi'i ddefnyddio i'r dibenion hyn yn llawn i'r Awdurdod.

Os yw'r Awdurdod o'r farn bod amrywiad sylweddol rhwng:

(i) yr union arian a roddwyd i'r Derbynnydd a / neu'r gwariant ar Rwymedigaethau'r Grant; a'r

(ii) symiau cyfatebol a'r rhagolwg yn rhagolwg cyllideb y Derbynnydd

gall yr Awdurdod amrywio, cadw yn ôl neu adennill taliadau sy'n gymesur i'r hyn a dybia'r Awdurdod sy'n rhesymol.

### 4.6 Isgontractwyr

Pan fydd y Derbynnydd yn llunio contract i gyflenwi unrhyw ran o'r gofynion, bydd y Derbynnydd yn sicrhau bod telerau wedi'u cynnwys yn yr is-gontract sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y Derbynnydd yn talu'r holl symiau sy'n ddyledus i'r is-gontractwr o fewn cyfnod penodedig na fydd yn fwy na thri deg (30) diwrnod ar ôl cael anfoneb ddilys fel y'i diffiniwyd yn ôl telerau'r is-gontract hwnnw.

## 5. Rheoli

(a) Bydd y Derbynnydd yn:

(i) sicrhau y bydd, wrth reoli Rhwymedigaethau'r Grant, yn cydymffurfio, ac y bydd bob amser yn cydymffurfio (ac yn sicrhau bod unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran yn cydymffurfio ac y bydd bob amser yn cydymffurfio) â'r holl ddeddfau sydd mewn grym ar y pryd, ac yn benodol na fydd ef (nac unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran) yn cyflawni unrhyw weithred sy'n gwahaniaethu (naill ai'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol) y barnwyd sy'n anghyfreithlon yn ôl y Ddeddfwriaeth Gydraddoldeb; ac

(ii) cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles pob unigolyn sy'n gysylltiedig â chyflawni Rhwymedigaethau'r Grant.

(b) Ni fydd y Derbynnydd yn cyflogi un o gyflogeion yr Awdurdod mewn unrhyw swydd sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau'r Grant, naill ai'n gyflogedig neu'n ddi-dâl, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod.

(c) Rhaid i'r Derbynnydd gydnabod cymorth ariannol yr Awdurdod mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a gynhyrchir, mewn ffurf sydd wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod.

(d) Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i gadw'r cyfan neu unrhyw daliadau o'r Cyllid Grant yn ôl os yw'r awdurdod wedi gwneud cais rhesymol am wybodaeth neu ddogfennau i'r Derbynnydd ac nad yw'r Awdurdod wedi cael yr wybodaeth hon o fewn cyfnod rhesymol.

**6 Anghydfodau**

(a) Bydd y partïon yn negodi'n ddidwyll i ddatrys unrhyw anghydfod sy'n deillio o'r Cytundeb Grant hwn a bydd yn uwchgyfeirio'r anghydfod hwnnw i uwch lefelau o fewn eu sefydliad os na all yr unigolion sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y Grant ei ddatrys.

(b) Os na all y partïon ddatrys anghydfod o fewn ugain (20) Diwrnod Busnes yn unol â Chymal 6(a), bydd yr anghydfod hwnnw'n cael ei gyfeirio at gyfryngwyr. Bydd y cyfryngu cael ei gynnal gan un cyfryngwr a benodir gan y partïon neu, os na all y partïon gytuno ar gyfryngwr o fewn pymtheg (15) Diwrnod Busnes ar ôl dyddiad y penderfyniad i ddatrys yr anghydfod drwy gyfryngu, neu os na all yr unigolyn a benodwyd weithredu neu os yw'n amharod i weithredu, bydd y cyfryngwr yn cael ei benodi gan y Centre for Effective Dispute Resolution (CEDR) yn Llundain yn dilyn cais gan y naill barti neu'r llall. Bydd y cyfryngu'n cael ei gynnal mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r ddwy ochr ac i'r cyfryngwr yn unol â gweithdrefn a bennwyd gan y cyfryngwr yn ôl ei ddisgresiwn diamod. Nid yw cyfryngu'n cyfyngu ar hawliau a rhwymedi'r partïon mewn unrhyw achos yn y dyfodol. Bydd costau'r cyfryngu, gan gynnwys ffioedd a threuliau'r cyfryngwr yn cael eu rhannu'n gyfartal rhwng y partïon. Ni chaniateir i unrhyw gostau a delir gan y Derbynnydd gael eu talu o'r Cyllid Grant.

**7. Terfynu**

**7.1 Terfynu gan yr Awdurdod**

Gall yr Awdurdod, os bydd yn ofynnol oherwydd newidiadau mewn ystyriaethau polisi, cyfyngiadau cyllidebol neu ariannol, neu newid yn y gyfraith sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r Awdurdod roi'r gorau i ariannu'r Derbynnydd, derfynu'r Cytundeb Grant hwn ar unrhyw adeg ar yr amod ei fod wedi rhoi o leiaf dri mis o rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Derbynnydd.

**7.2 Terfynu oherwydd Ansolfedd**

Heb ragfarn i Gymal 7.4, gall yr Awdurdod derfynu'r Cytundeb Grant hwn ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig, a hawlio'n ôl oddi wrth y Derbynnydd y symiau a dalwyd iddo ond sydd heb eu gwario gan y Derbynnydd i gyflawni Rhwymedigaethau'r Grant, os:

(i) yw'r Derbynnydd wedi'i ddiddymu am unrhyw reswm gan gynnwys, heb gyfyngiad, ansolfedd, gorchymyn dirwyn i ben neu benodi derbynnydd neu weinyddwr; neu

(ii) os yw'r Derbynnydd yn dod i gyfaddawd neu drefniant arall ynghylch ei ddyledion â'i gredydwyr (ac os mai dyna fydd yr achos bydd yn hysbysu'r Awdurdod yn ysgrifenedig ar unwaith), neu

(iii) os yw'r Derbynnydd yn debygol, ym marn yr Awdurdod, o fethu â thalu unrhyw rai o'i ddyledion.

### 7.3 Terfynu o ganlyniad i Dramgwydd Perthnasol

(a) Os yw'r Derbynnydd yn cyflawni tramgwydd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Grant hwn nad oes modd ei gywiro, gall yr Awdurdod derfynu'r Cytundeb Grant hwn ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig.

(b) Os yw'r Derbynnydd yn cyflawni tramgwydd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Grant hwn y gall ei gywiro, bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r Derbynnydd yn ysgrifenedig gan nodi sut y gall gywiro'r tramgwydd o fewn cyfnod rhesymol. Os na chywirir y tramgwydd erbyn y dyddiad hwnnw, gall yr Awdurdod, drwy roi rhybudd ysgrifenedig arall, derfynu'r Cytundeb Grant ar unwaith.

### 7.4 Hawliau a Rhwymedigaethau wrth Derfynu

(a) Wrth derfynu'r Cytundeb Grant hwn (boed drwy hysbysiad, ei fod yn dod i ben neu fel arall) bydd y Derbynnydd, cyn gynted ag y bydd yn rhesymol ymarferol:

(i) yn dychwelyd i'r Awdurdod unrhyw asedau neu eiddo a brynwyd â'r Cyllid Grant neu unrhyw Gyllid Grant heb ei ddefnyddio (oni bai bod yr Awdurdod yn rhoi caniatâd ysgrifenedig yn caniatáu iddo eu cadw neu i geisiadau i'w gwaredu); ac

(ii) yn atal ar unwaith rhag rhoi'r argraff mewn unrhyw ffordd bod ganddo unrhyw gysylltiad sy'n parhau â'r Awdurdod mewn cysylltiad â Rhwymedigaethau'r Grant.

(b) Ni fydd terfynu'r Cytundeb Grant hwn yn rhagfarnu nac yn effeithio ar unrhyw hawl sydd gan y naill barti i ddwyn achos yn erbyn y llall.

(c) Ni fydd yr Awdurdod yn atebol mewn unrhyw amgylchiadau am dalu tâl diswyddo neu dalu unrhyw gostau terfynu eraill a wynebir gan y Derbynnydd o ganlyniad i derfynu'r Cytundeb Grant hwn heblaw yn yr amgylchiadau a amlinellwyd yn 8.6 isod.

### 7.5 Rhesymoldeb

Bydd yr Awdurdod yn gweithredu'n rhesymol ac yn gymesur ym mhob amgylchiad wrth weithredu ei hawliau o dan y ddarpariaeth hon i derfynu ar ôl rhoi rhybudd pan fydd tramgwydd wedi digwydd.

### 7.6 Isgontractwyr

Gall yr Awdurdod roi rhybudd i'r Derbynnydd ar unrhyw adeg yn mynnu ei fod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio is-gontractwr neu aelod o gonsortiwm penodol; ni fydd yr Awdurdod yn gwneud hynny oni bai bod ganddo sail resymol dros wrthwynebu i barhau i ddefnyddio'r is-gontractwr neu aelod o gonsortiwm o'r fath. Bydd unrhyw rybudd o'r fath yn ystyried telerau is-gontract neu gytundeb y Derbynnydd.

## 8. Effeithiau terfynu neu pan ddaw cytundeb i ben

8.1 Ddeuddeng (12) mis cyn y daw'r Cytundeb Grant hwn i ben neu cyn iddo gael ei derfynu ac ar ôl ysbeidiau wedi hynny a bennwyd gan yr Awdurdod (ni fydd yn amlach na phob tri deg (30) diwrnod am gyfnod o bedwar (4) mis ar y dyddiad pan ddaeth i ben neu gael ei derfynu bydd y Derbynnydd yn gwneud y canlynol yn llawn ac yn fanwl:

(a) Darparu unrhyw wybodaeth a all fod ei hangen yn rhesymol ar unrhyw ddarparwr arall neu'r Awdurdod i gynorthwyo i drosglwyddo Rhwymedigaethau'r Grant a / neu staff i ddarparwr arall; ac

(b) Yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998, rhoi unrhyw wybodaeth os o gwbl a all fod ei hangen yn rhesymol ar yr Awdurdod i ateb gofynion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006, ac unrhyw ganllaw perthnasol a gyhoeddwyd gan neu sy'n gymwys i'r Awdurdod gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i:

(i) Yr holl ffeithiau a materion perthnasol sy'n gysylltiedig â neu sy'n ymwneud â chyflogaeth unrhyw rai o Bersonél neu gyn Bersonél y Derbynnydd gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i'w hoedran, hyd eu gwasanaeth, cyfnodau rhybudd, lleoliad, natur y rôl, yr holl delerau ac amodau cyflogaeth, polisïau buddiannau neu gytundebau neu drefniadau neu ymgymeriadau eraill o ran pob un ohonynt ac unrhyw amrywiad y cytunwyd arno neu a orfodwyd ar unrhyw rai o Bersonél neu gyn Bersonél y Derbynnydd o'r herwydd o fewn cyfnod o chwe (6) mis cyn y dyddiad dod i ben neu derfynu;

(ii) Yr holl ffeithiau a materion perthnasol sy'n gysylltiedig â phob neu unrhyw gydgytundebau, trefniadau neu ddealltwriaeth arall sydd gan y Derbynnydd neu ei Asiantau ag unrhyw undeb llafur, cymdeithas staff neu gorff arall sy'n cynrychioli unrhyw aelod o'r Staff;

(iii) Manylion llawn unrhyw sylwadau neu ddatganiadau ysgrifenedig a wnaethpwyd gan y Derbynnydd neu'r Asiantau wrth unrhyw rai o Bersonél neu gyn Bersonél y Derbynnydd (neu eu hundebau neu gynrychiolwyr eraill) mewn unrhyw ffordd sy'n gysylltiedig â neu sy'n ymwneud â chyflogaeth â'r Awdurdod;

8.2 Bydd y Derbynnydd yn cyflenwi gwybodaeth gyfoes i'r Awdurdod ar unwaith pan ddaw'n ymwybodol bod unrhyw wybodaeth a roddwyd ganddo sy'n unol â Chymal 8.1 bellach yn anwir, yn anghywir neu'n gamarweiniol.

8.3 Pan ddaw'r Cytundeb Grant hwn i ben neu os caiff ei derfynu, bydd y Derbynnydd yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Awdurdod rhag unrhyw hawliad, atebolrwydd, cost neu alwad a wneir gan ac ar ran unrhyw aelod o Bersonél y Derbynnydd, neu gyn aelod o Bersonél neu grŵp o Bersonél neu grŵp o unrhyw gyn aelodau Personél y gall yr Awdurdod eu hwynebu o ganlyniad i unrhyw beth a wnaethpwyd neu na wnaethpwyd o ran cyflogaeth Personél neu gyn Bersonél yr Awdurdod neu'r Asiantau, a digwyddodd cyn y dyddiad pan ddaeth y Cytundeb Grant i ben neu pan gafodd ei derfynu. Bydd gan yr Awdurdod hawl i aseinio buddiant yr indemniadau yn y paragraff 8.3 hwn i unrhyw dderbynnydd yn y dyfodol.

8.4 Pan ddaw'r Cytundeb Grant hwn i ben neu os caiff ei derfynu yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn unrhyw leoliad, bydd cysoni ariannol rhwng yr Awdurdod a'r Derbynnydd o fewn tri (3) mis ar ôl y terfyniad i benderfynu a yw'r Awdurdod wedi talu arian Grant sydd yn fwy nag union wariant y Derbynnydd. Os canfyddir symiau o'r fath o ganlyniad i'r cysoni hwn, cânt naill ai eu dychwelyd i neu eu talu gan yr Awdurdod o fewn deg (10) diwrnod gwaith ar ôl i'r Partïon gytuno ar y symiau neu, os na cheir cytundeb, gwneir penderfyniad yn unol â Chymal 6.

8.5 Pe byddai'r Cytundeb Grant yn cael ei derfynu gall yr Awdurdod ystyried llunio cytundeb yn uniongyrchol ag asiant yr oedd gan y Derbynnydd gytundeb ag ef neu gynnig darparwr arall i gyflenwi'r gwasanaethau sy'n ofynnol yn ôl y Cytundeb Grant hwn.

8.6 Bydd yr Awdurdod yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Derbynnydd o ran yr holl gostau yr aeth iddynt yn sgil diswyddo unrhyw aelod o Bersonél y Derbynnydd, pan fydd diswyddiad o'r fath yn deillio'n gyfan gwbl neu'n uniongyrchol naill ai o:

8.6.1 Newid yn y Cytundeb Grant hwn a gofnodwyd yn y llythyr i amrywio'r grant; neu

8.6.2 Terfynu'r Cytundeb Grant yn gynnar gan yr Awdurdod o dan Gymal 7.1.

8.7 I ddibenion Cymal 8.6, bydd unrhyw gostau a delir gan yr Awdurdod yn cael eu cyfyngu i faint taliad diswyddo statudol a thalu cyflog a buddiannau yn ystod cyfnodau o rybudd y Staff a grynhowyd gan y Staff dan sylw yn ystod cyfnod y Cytundeb Grant hwn, neu unrhyw gyflogaeth barhaol flaenorol mewn gwasanaethau a ariannwyd gan yr Awdurdod.

8.8 Yn ystod y deuddeng (12) mis cyn diwedd y Cyfnod Grant ni chaiff y Derbynnydd (a bydd yn sicrhau nad yw unrhyw is-gontractwr ychwaith) yn gwneud y canlynol heb gydsyniad ymlaen llaw gan yr Awdurdod (ni fydd cydsyniad o'r fath yn cael ei gadw'n ôl na'i oedi mewn modd afresymol):

(a) newid neu amrywio (nac awgrymu nac addo newid neu amrywio) telerau ac amodau cyflogi neu gymryd ymlaen (gan gynnwys, er mwy osgoi amheuaeth, talu) unrhyw un o Bersonél y Derbynnydd (heblaw pan fo newid neu amrywiad o'r fath wedi'i gytuno eisoes rhwng y Derbynnydd a Phersonél y Derbynnydd yn ystod busnes arferol, a lle nad yw newid neu amrywiad o'r fath yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â throsglwyddo Rhwymedigaethau'r Grant);

(b) terfynu neu roi rhybudd i derfynu cyflogaeth neu gymryd ymlaen unrhyw rai o Bersonél y Derbynnydd (heblaw mewn amgylchiadau lle bydd y terfynu'n digwydd oherwydd camymddwyn neu ddiffyg galluogrwydd);

(c) trosglwyddo, diddymu, lleihau neu amrywio cysylltiad unrhyw un o Bersonél y Derbynnydd o ddarpariaeth neu yn narpariaeth Rhwymedigaethau'r Grant (heblaw bod trosglwyddo neu ddiddymu o'r fath:

(i) wedi'i gynllunio fel rhan o ddatblygiad gyrfa'r unigolyn;

(ii) yn digwydd yn ystod busnes arferol; ac

(iii) na fydd yn cael unrhyw effaith andwyol ar gyflawni Rhwymedigaethau'r Grant ar ran y Derbynnydd);

**Ar yr amod** na fydd trosglwyddo, diddymu, lleihau neu amrywiad o'r fath yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â throsglwyddo Rhwymedigaethau'r Grant);

(d) recriwtio neu ddod ag unigolion newydd i mewn i gyflawni Rhwymedigaethau'r Grant nad oedd eisoes yn gysylltiedig â chyflawni Rhwymedigaethau'r Grant cyn y cyfnod perthnasol.

**9. Gweithgareddau Gwaharddedig**

Ni fydd y Derbynnydd yn defnyddio unrhyw ran o'r Cyllid Grant a fydd ar gael iddo drwy'r Awdurdod i unrhyw ddiben heblaw rheoli Rhwymedigaethau'r Grant ac ni fydd yn benodol yn defnyddio unrhyw Gyllid Grant i gynorthwyo unrhyw sefydliad neu weithgarwch, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sy'n debygol o ddwyn anfri ar yr

Awdurdod nac i gefnogi, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw sefydliadau neu weithgareddau gwleidyddiaeth plaid.

## 10. Yswiriant

Bydd y Derbynnydd yn sicrhau bod ganddo ddigon o sicrwydd yswiriant (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i yswiriant atebolrwydd cyhoeddus), a bydd yn cyflwyno tystiolaeth i'r Awdurdod ar gais a bydd yn sicrhau bod pob un o'i is-gwmnïau neu isgontractwyr neu aelodau consortia sy'n cyflawni Rhwymedigaethau'r Grant hefyd yswiriant digonol.

## 11. Indemniad

11.1 Nid yw'r Awdurdod yn derbyn dim atebolrwydd ar ran y Derbynnydd nac unrhyw drydydd parti am Golledion sy'n deillio o ganlyniad i / mewn cysylltiad â Rhwymedigaethau'r Grant sut bynnag y byddant yn codi (heblaw twyll, neu anaf personol neu farwolaeth a achosir o ganlyniad i esgeulustod yr Awdurdod).

11.2 Mae'r Derbynnydd yn cytuno i indemnio'r Awdurdod yn erbyn unrhyw Golledion; sut bynnag byddant yn digwydd, sy'n deillio o ganlyniad i / mewn cysylltiad â'r Rhwymedigaethau Grant, sydd wedi digwydd o ganlyniad i gamwedd, camddefnyddio Cyllid Grant neu esgeulustod.

## 12. Deddf Diogelu Data 1998

Y Derbynnydd fydd y rheolwr data neu'r prosesydd data (yn ddibynnol ar gytundeb y cyflenwr data unigol) y data a geir wrth gyflawni Rhwymedigaethau'r Grant. Wrth gael a phrosesu'r data hwnnw bydd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol e.e. y Ddeddf Diogelu Data 1998.

## 13. Cyfrinachedd

13.1 Bydd y Derbynnydd yn cadw'n gyfrinachol ac yn peidio â datgelu ac yn mynnu bod ei gyflogeion, isgontractwyr ac Asiantau ac unrhyw aelodau consortia eraill yn cadw'n gyfrinachol ac yn peidio â datgelu unrhyw wybodaeth sy'n gyfrinachol ei natur y mae wedi'i chael yn sgil y Cytundeb Grant hwn. Nid oes dim yn y cymal hwn sy'n berthnasol i wybodaeth sydd eisoes yn gyhoeddus neu ym meddiant y Derbynnydd heblaw am dramgwyddo'r Cymal hwn.

13.2 Bydd y Derbynnydd yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth bersonol a ddatgelir iddo wrth iddo gyflawni'r Cytundeb Grant hwn yn cael ei thrin yn gyfrinachol a dylai gael ei datgelu i drydydd parti'n unig yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998.

13.3 Ni fydd y Derbynnydd yn defnyddio unrhyw wybodaeth a gafwyd o ganlyniad i gyflawni'r gofynion (gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw Glient) mewn unrhyw ffordd sy'n anghywir neu'n gamarweiniol.

13.4 Bydd darpariaethau'r Amod hwn yn goroesi ar ôl terfynu'r Cytundeb Grant hwn; pa ffordd bynnag y digwydd hynny.

## 14. Tryloywder a gwybodaeth

14.1 Bydd y Derbynnydd yn cadw cofnod manwl o'r holl wariant sy'n gysylltiedig â'r Grant hwn a bydd yn cadw pob anfoneb, derbynneb, cofnodion cyfrifyddu ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â gwario'r Cyllid Grant am o

leiaf chwe blynedd ar ôl cwblhau Rhwymedigaethau'r Grant, neu ddwy (2) Flynedd ar ôl diwedd cyfnod y grant, pa un bynnag yw'r hwyaf. Rhaid i'r rhain fod ar gael ar unrhyw adeg resymol i gael eu harchwilio gan unrhyw swyddog neu swyddogion o'r Awdurdod, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol neu eu henwebeion, heb godi tâl.

14.2 Bydd y Derbynnydd yn gweithredu mewn ffordd deg, agored anwahaniaethol wrth brynu ei holl nwyddau a gwasanaethau.

14.3 Bydd y Derbynnydd, a bydd yn sicrhau bod ei is-gwmnïau ac isgontractwyr, yn caniatáu i gynrychiolwyr yr Awdurdod archwilio i ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Derbynnydd wrth iddo ddefnyddio'r Cyllid Grant.

14.3 Bydd y Derbynnydd, heb godi tâl, yn caniatáu i unrhyw swyddog neu swyddogion o'r Awdurdod, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol neu eu henwebeion, i ymweld â'i swyddfeydd a / neu i archwilio unrhyw rai o'i weithgareddau a / neu i archwilio ac i gymryd copïau o lyfrau cyfrifon y Derbynnydd a phob dogfen neu gofnod arall sydd ym marn y swyddogion yn gysylltiedig â defnydd o'r Cyllid Grant a ddarperir. Hefyd, bydd y Derbynnydd yn cydweithredu ag unrhyw archwiliadau a gynhelir gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Derbynnydd wrth iddo ddefnyddio'r Cyllid Grant.

14.4 Pan fo'r Derbynnydd yn gweithio â phartneriaid, is-gwmnïau neu isgontractwyr bydd yn ofynnol bod y Derbynnydd yn cael y canlynol gan y cyrff hyn:

a. copïau ardystiedig o ddogfennau cyfrifyddu (lle mae'r rhan yn ofynnol yn ôl y gyfraith) sy'n cyfiawnhau incwm a gwariant y partneriaid hyn mewn cysylltiad â'r prosiect dan sylw

b. datganiad blynyddol, ysgrifenedig sy'n dangos sut y cafodd yr arian ei wario; ac

c. ymgymeriad wedi'i lofnodi y bydd y partner yn cadw dogfennau am y cyfnod a nodwyd uchod.

## 15. Mynediad at ddata

Bydd y Derbynnydd yn caniatáu, ac yn gosod ar ei bartneriaid, is-gwmnïau ac isgontractwyr ac ymrwymiad i ganiatáu cynrychiolwyr yr Awdurdod i archwilio data wedi'i ddadbersonoli a gasglwyd i ddibenion gwerthuso a monitro perfformiad

## 16. Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r partïon yn cydnabod bod yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a bydd y ddwy ochr yn hwyluso cydymffurfiad yr Awdurdod â'r FOIA, unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd o dan yr FOIA ac unrhyw ganllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth, yn amodol, pan yn berthnasol, bod y Derbynnydd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data wrth iddo ymdrin ag unrhyw geisiadau gan yr Awdurdod.

## 17. Hawliau Eiddo Deallusol

17.l Bydd y Derbynnydd yn caniatáu i'r Awdurdod heb ddim cost drwydded ddi-alw yn ôl, heb dalu breindal a pharhaus i ddefnyddio ac i is-drwyddedu defnydd o unrhyw ddeunydd, dogfennaeth neu adroddiad a grëwyd gan y Derbynnydd o dan delerau'r Cytundeb Grant hwn i ddibenion y tybia'r Awdurdod sy'n briodol er budd dioddefwyr a thystion.

17.2 Bydd y Derbynnydd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Awdurdod cyn defnyddio logo'r Awdurdod wrth gydnabod cymorth ariannol yr Awdurdod tuag at ei waith.

17.3 Bydd y Derbynnydd yn sicrhau bod ganddo'r hawl i ddefnyddio unrhyw ddogfennaeth, caledwedd / meddalwedd cyfrifiadurol neu unrhyw ddeunydd o unrhyw fath a ddefnyddir i gyflawni'r gofyniad neu ofynion sy'n bodoli o dan y Cytundeb Grant hwn. Bydd y Derbynnydd yn indemnio'r Awdurdod yn erbyn pob hawliad, achos, iawndal, gweithredoedd, treuliau a chostau cyfreithiol (ar sail cyfreithiwr a chlient) ac unrhyw fath arall o atebolrwydd sy'n deillio yn sgil defnyddio eitemau o'r fath i gyflawni'r gofyniad.

## 18. Personél

Bydd y Derbynnydd yn sicrhau bod pob cam rhesymol wedi'u cymryd i sicrhau ei fod ef ac unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran yn meddu ar yr holl gymwysterau, trwyddedau, hawlenni, sgiliau a phrofiad angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, yn ddiogel ac mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r holl gyfreithiau perthnasol am y cyfnod y byddant mewn grym (i'r graddau y bydd y Derbynnydd yn rhwym wrthynt).

Bydd y Derbynnydd yn sicrhau bod gan yr holl staff a gyflogir yr hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig o dan y Gyfraith fewnfudo berthnasol.

Bydd y Derbynnydd yn sicrhau bod unrhyw unigolyn a gyflogir neu a ddefnyddir i gyflawni Rhwymedigaethau'r Grant wedi bod yn destun archwiliad cofnodion troseddol drwy gyfrwng archwiliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd y Derbynnydd yn sicrhau hefyd na fydd dim un unigolyn sy'n datgelu bod ganddo ef / hi gollfarn berthnasol, neu os bydd y Derbynnydd yn canfod bod ganddo ef / hi gollfarn berthnasol (boed o ganlyniad i archwiliad yr Heddlu neu drwy archwiliad datgeliad cofnodion troseddol neu fel arall) yn cael ei gyflogi neu ei ddefnyddio i gyflawni Rhwymedigaethau'r Grant.

Os bydd yr Awdurdod yn tybio ei bod yn angenrheidiol bydd y Derbynnydd yn cyflenwi rhestr o Bersonél a fydd yn ymgymryd â gweithgarwch rheoledig yn unol â Deddf Diogelu Rhyddidau 2012. Gall yr Awdurdod ddefnyddio ei ddisgresiwn ei hun yn unig i fynnu bod unrhyw unigolyn a gyflogir neu a ddefnyddir gan y Derbynnydd nad yw wedi bod yn destun yr archwiliadau angenrheidiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hatal rhag bod yn gysylltiedig â chyflawni Rhwymedigaethau'r Grant.

## 19. Cynllun ymadael

Bydd y Derbynnydd yn paratoi strategaeth ymadael a chynllun lefel uchel cysylltiedig ar gyfer y Cytundeb Grant ac yn eu cyflwyno i sicrhau cytundeb yr Awdurdod erbyn 31 Mawrth 2015.

Ar ôl cael cytundeb, bydd yr eitemau hyn yn cael eu hymgorffori yn y Cytundeb Grant fel Atodlen 5 newydd yn unol â'r broses newid a amlinellwyd yng Nghymal 20.9.

Bydd y strategaeth ymadael a'r cynllun lefel uchel cychwynnol yn rhoi'r darpariaethau ar gyfer gadael y Cytundeb Grant mewn ffordd drefnus ac, os yw hynny'n briodol, yn trosglwyddo'r gweithgarwch i dderbynnydd newydd. Dylai hyn gynnwys unrhyw gymorth a gweithgarwch ar ôl terfynu a fydd yn ofynnol. Yn ystod oes y Cytundeb Grant bydd y Derbynnydd a'r Awdurdod yn adolygu'r strategaeth ymadael a'r cynllun a bydd y Derbynnydd yn eu datblygu i sicrhau eu bod yn ddichonadwy ac yn ymarferol.

Bydd y Derbynnydd yn cydweithredu'n llawn â'r Awdurdod ac unrhyw dderbynnydd newydd yn ystod yr ymadael a'r trosglwyddo ac yn ateb pob cais rhesymol am gymorth o fewn amserlenni rhesymol.

Yn y strategaeth ymadael bydd y Derbynnydd yn cynnwys ei drefniadau ar gyfer adeiladu cronfa wrth gefn i dalu costau terfynu, ac yn rhoi syniad o unrhyw gostau rhesymol y gellid disgwyl i'r Awdurdod eu talu pe bai'r Cytundeb Grant yn cael ei derfynu'n gynnar. Bydd yr Awdurdod yn ystyried gwybodaeth o'r fath, ond nid yw'n ymrwymo ymlaen llaw i dalu unrhyw gostau sy'n deillio o derfynu cynnar.

## 20. Amrywiol

### 20.1 Dehongli

(a) Yn y Cytundeb Grant hwn mae unrhyw gyfeiriad, datganedig neu ymhlyg, at ddeddfiad (sy'n cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth mewn unrhyw awdurdodaeth) yn cynnwys:

(i) bod deddfiad fel y'i diwygiwyd, ei ymestyn neu ei weithredu gan neu o dan unrhyw ddeddfiad arall (cyn, ar adeg neu ar ôl gweithredu'r Cytundeb Grant hwn);

(ii) unrhyw ddeddfiad y mae'r deddfiad hwnnw yn ei ailddeddfu (wedi neu heb ei addasu) ac

(iii) unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir (cyn, ar adeg neu ar ôl gweithredu'r Cytundeb Grant hwn) o dan y deddfiad hwnnw, gan gynnwys (pan yn gymwys) y deddfiad hwnnw fel y'i diwygiwyd, ei ymestyn, neu ei weithredu fel y disgrifiwyd yng Nghymal 20.1(a)(i), neu o dan unrhyw ddeddfiad y mae'n ei ailddeddfu fel y disgrifiwyd yng Nghymal 20.1 (a)(ii).

(b) Yn y Cytundeb Grant hwn:

(i) mae unrhyw gyfeiriad at berson yn cynnwys corfforaeth, cymdeithas anghorfforedig o bobl (gan gynnwys partneriaeth), llywodraeth, gwladwriaeth, asiantaeth, sefydliad, ac unrhyw endid arall boed ganddo bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio ac unigolyn, ei ystâd a chynrychiolwyr personol;

(ii) mae unrhyw gyfeiriad at barti yn y Cytundeb Grant hwn yn cynnwys cyfeiriad at olynwyr neu aseinwyr (agosaf neu fel arall) y parti hwnnw.

(c) Yn y Cytundeb Grant hwn bydd pob cyfeiriad at indemnio unrhyw berson yn erbyn unrhyw ddigwyddiad, mater neu amgylchiad yn cael ei ddehongli fel cyfeiriad at indemnio'r person hwnnw'n llawn a chael y person hwnnw'n ddiniwed a sail ar ôl Treth rhag ac yn erbyn pob Colled a ddioddefir neu a wynebir gan y person hwnnw, ym mhob achos sy'n deillio o unrhyw a phob hawliad (boed llwyddiannus neu beidio, wedi'u cyfaddawdu neu setlo), gweithredoedd, gorchmynion, achosion neu ddyfarniadau a all gael eu cychwyn, eu gwneud, eu bygwth, eu honni, eu haeru neu eu sefydlu mewn unrhyw awdurdodaeth yn erbyn neu'n cynnwys y person hwnnw, gan gynnwys Colledion a ddioddefir neu a wynebir wrth brofi hawl i gael indemniad o dan y Cytundeb Grant hwn, a bydd indemnio ac indemniad a mynegiannau tebyg yn cael eu dehongli'n unol â hynny.

(d) Os oes gwrthdaro neu anghysondeb rhwng unrhyw:

(i) derm ym mhrif gorff y Cytundeb Grant hwn;

(ii) term mewn unrhyw un o'r Atodlenni;

(iii) term mewn unrhyw un o Atodiadau'r Atodlenni; ac

(iv) unrhyw derm sydd wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddogfen arall sydd wedi'i hymgorffori drwy gyfeiriad at y Cytundeb Grant hwn,

bydd y term sy'n dod o fewn y categori sy'n ymddangos gyntaf yn y rhestr uchod, oni bai y nodir yn ddatganedig fel arall, yn cael blaenoriaeth.

**20.2 Cyhoeddiadau**

Ni fydd y Derbynnydd yn gwneud nac yn awdurdodi unrhyw:

(a) gyhoeddiad cyhoeddus na phreifat; na

(b) datganiad

yn ymwneud â'r Cytundeb Grant hwn heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod.

Ni fydd y naill barti na'r llall yn cyfeirio at nac yn defnyddio unrhyw:

(a) enw busnes; na

(b) nod masnach y parti arall mewn unrhyw ohebiaeth hyrwyddo heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y parti arall, oni bai bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

**20.3 Hysbysiadau**

Rhaid i unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall a wneir o dan y Cytundeb Grant hwn i barti fod yn ysgrifenedig a rhaid ei gyflwyno neu ei anfon drwy'r post neu e-bost at y parti y mae wedi'i fwriadu yn ei gyfeiriad a roddir isod:

at yr Awdurdod yn:

Ministry of Justice,
Justice Reform,
102 Petty France,
Llundain,
SWIH 9AJ

Wedi'i farcio i sylw:

Grant Manager

at y Derbynnydd yn:

Hallam House,
Hallam Street,
Llundain, WI W 6JL

Wedi'i farcio i sylw:

Director Homicide Service

Bydd unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall a anfonir drwy'r post yn cael ei anfon drwy bost dosbarth cyntaf rhagdaledig danfoniad wedi'i gofnodi (os o fewn y Deyrnas Unedig) neu drwy bost awyr rhagdaledig (os y tu allan i'r DU).

Tybir y bydd unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall wedi'i roi:

(a) os yw wedi'i ddanfon, ar y dyddiad danfon;

(b) os yw wedi'i anfon drwy'r post, ar yr ail Ddiwrnod Busnes ar ôl iddo gael ei roi yn y post.

Ni fydd y Cymal 20.3 yn weithredol yn achos gwasanaethu unrhyw ffurflen hawlio, hysbysiad, gorchymyn, dyfarniad na dogfennau eraill sy'n ymwneud neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw achosion, achos cyfreithiol neu weithredoedd sy'n deillio neu sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Grant hwn.

**20.4 Y Cytundeb Cyfan**

(a) Mae'r Cytundeb Grant hwn (a'i atodlenni) yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y partïon sy'n ymwneud â'r trafodion a ragwelir gan y Cytundeb Grant hwn ac mae'n disodli pob cytundeb blaenorol rhwng y partïon sy'n ymwneud â'r trafodion hyn. Ac eithrio pan fydd yn ofynnol yn ôl statud, ni fydd dim telerau sydd ymhlyg (boed yn ôl arfer, defnydd neu arall) i'r Cytundeb Grant hwn.

(b) Mae pob parti yn cydnabod, wrth gytuno i ymrwymo i'r Cytundeb Grant hwn, nad yw wedi dibynnu ar unrhyw gynrychiolaeth, gwarant, contract cyfochrog na sicrwydd arall datganedig neu ymhlyg (ac eithrio'r rhai a nodwyd yn y Cytundeb Grant hwn a'r dogfennau y cyfeirir atynt ynddo) a wnaethpwyd gan neu ar ran y parti arall ar unrhyw adeg cyn llofnodi'r Cytundeb Grant hwn.

(c) Mae pob parti yn hepgor pob hawl a rhwymedi a allai, ac eithrio Cymal 20.4(b), fod ar gael iddo yn achos unrhyw gynrychiolaeth, gwarant, contract cyfochrog na sicrwydd arall datganedig neu ymhlyg.

**20.5 Hawliau Trydydd Parti**

Ni all person nad yw'n barti i'r Cytundeb Grant hwn orfodi unrhyw un o'i delerau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

**20.6 Hawlildiad**

Gall hawliau pob parti o dan y Cytundeb Grant hwn:

(i) gael eu gweithredu mor aml ag y bydd angen;

(ii) ac eithrio fel y trefnwyd fel arall yn ôl y Cytundeb Grant hwn, maent yn gronnol ac nid yn gyfyngedig i hawliau a rhwymedi a geir yn y gyfraith: a

(iii) gellir eu hepgor yn ysgrifenedig ac yn benodol yn unig.

(b) Nid yw oedi wrth weithredu neu beidio â gweithredu unrhyw hawliau yn hawlildiad o'r hawl hwnnw. Ni fydd hawlildio unrhyw hawl neu rwymedi sy'n deillio o dramgwyddo'r Cytundeb Grant hwn yn cyfrif fel hawlildio unrhyw hawl neu rwymedi sy'n deillio o unrhyw dramgwydd arall neu wedyn o'r Cytundeb Grant hwn.

(c) Ni fydd unrhyw hawlildiad gan yr Awdurdod yn weithredol oni bai ei fod yn cael ei gyfleu'n ysgrifenedig i'r Derbynnydd.

**20.7 Dim partneriaeth nac asiantaeth**

Ar bob adeg yn ystod tymor y Cytundeb Grant hwn, bydd y Derbynnydd yn annibynnol ar yr Awdurdod, ac ni fydd dim yn y Cytundeb Grant hwn yn cael ei ddehongli fel pe bai'n creu partneriaeth, contract cyflogaeth neu berthynas fel pennaeth ac asiant rhwng yr Awdurdod a'r Derbynnydd ac felly ni fydd gan yr Awdurdod na'r Derbynnydd yr

awdurdod i weithredu yn enw, neu ar ran, neu i ymrwymo'r parti arall heblaw yn y modd a ganiateir yn benodol yn nhelerau'r Cytundeb Grant hwn.

### 20.8 Toradwyedd

Mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym mhob Cymal a pharagraff yn y Cytundeb Grant hwn yn orfodadwy yn annibynnol ar bob un o'r lleill ac ni fydd eu dilysrwydd yn cael ei effeithio os oes unrhyw rai o'r lleill yn annilys. Os oes unrhyw ddarpariaeth yn ddi-rym ond a fyddai'n ddilys pe bai rhyw ran o'r ddarpariaeth yn cael ei dileu, bydd y ddarpariaeth dan sylw'n weithredol gydag unrhyw addasiad a all fod yn angenrheidiol i'w gwneud yn ddilys.

### 20.9 Newidiadau

Ni fydd dim newid i'r Cytundeb Grant hwn yn rhwym ar y partïon eraill oni bai ei fod wedi'i amlinellu'n ysgrifenedig, wedi'i fynegi i newid y Cytundeb Grant hwn ac wedi'i lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig o bob parti.

### 20.10 Costau

Bydd pob parti yn talu'r costau a'r treuliau a wynebir ganddo wrth ymrwymo i'r Cytundeb Grant hwn.

Pan fydd y Cytundeb Grant hwn yn datgan bod yr Awdurdod yn talu costau i'r Derbynnydd, bydd gan y Derbynnydd hawl i adennill y costau hynny oddi wrth yr Awdurdod ar yr amod ei fod yn gallu dangos, mewn ffordd sy'n bodloni'r Awdurdod, na allai'r Derbynnydd yn rhesymol osgoi nac adennill y costau drwy weithredu'n unol ag Arfer Da'r Diwydiant.

### 20.11 Aseinio

Ni chaniateir i'r Derbynnydd aseinio nac is-gontractio'r gwaith o reoli'r cyfan neu ran o Rwymedigaethau'r Grant heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod.

### 20.12 Gwrthrannau

Gellir gweithredu'r Cytundeb Grant hwn mewn unrhyw nifer o wrthrannau, a fydd gyda'i gilydd yn cyfrif fel un cytundeb, a gall unrhyw barti (gan gynnwys unrhyw gynrychiolydd parti a awdurdodwyd yn briodol) ymrwymo i'r Cytundeb Grant hwn drwy weithredu gwrthran.

### 20.13 Cyfraith Lywodraethu ac Awdurdodaeth

Bydd y Cytundeb Grant hwn ac unrhyw rwymedigaethau digontract sy'n deillio neu sy'n gysylltiedig ag ef yn cael ei lywodraethu gan gyfraith Lloegr.

Yn amodol ar y Weithdrefn Datrys Anghydfodau, bydd gan lysoedd Lloegr awdurdodaeth unigryw i ddatrys unrhyw anghydfod, hawliad neu ddadl sy'n deillio neu sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Grant hwn (gan gynnwys anghydfod, hawliad neu ddadl sy'n gysylltiedig â rhwymedigaethau digontract sy'n deillio neu sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Grant hwn) a bydd y partïon yn unol â hynny'n ymostwng i awdurdodaeth unigryw llysoedd Lloegr.